# ATODLEN 10

## Gwaith cyfyngedig ar dir comin

### *Addasu is-ddeddfwriaeth*

**1.**—(1) Mae Rheoliadau Gwaith ar Diroedd Comin, etc. (Gweithdrefn) (Cymru) 2012(**1**) mewn perthynas â cheisiadau o dan adran 38(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006, yn gymwys gyda'r addasiadau canlynol.

(2) Yn rheoliad 2(2), rhaid darllen y diffiniad o "yr awdurdod sy'n penderfynu" ("*the determining authority*") fel pe bai is-baragraff (b) a'r gair "neu" sy'n ei ragflaenu wedi eu hepgor.

(3) Nid yw rheoliadau 4 i 9 yn gymwys.

(4) Rhaid darllen rheoliad 10(1) fel pe rhoddid "at Weinidogion Cymru cyn i'r cyfnod sylwadau ddod i ben" yn lle "at yr awdurdod sy'n penderfynu erbyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad o gais".

(5) Nid yw rheoliad 10(3) i (6) yn gymwys.

(6) Nid yw rheoliadau 11 i 18 yn gymwys.

**2.**—(1) Mae Gorchymyn 2016 yn gymwys gyda'r addasiadau a ganlyn.

(2) Rhaid darllen erthygl 2 (dehongli) fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod yn y man priodol—

"ystyr "tir comin" ("*common land*") yw tir o fath a bennir yn adran 38(5)(a) a (b) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006;".

(3) Rhaid darllen erthygl 12 (ceisiadau: gofynion cyffredinol) fel pe bai rhaid i'r cais ddod gydag—

(a) map sy'n dangos y tir comin y bwriedir gwneud y gwaith arno, gydag—

(i) ffin y tir comin wedi ei marcio â lliw gwyrdd; a

(ii) safle'r gwaith arfaethedig wedi ei farcio â lliw coch;

(b) (pan fo'n briodol) plan neu luniad o'r gwaith arfaethedig; ac

(c) os yw'r tir yn dir comin cofrestredig, copi o'r cofnod perthnasol yn y gofrestr o dir comin gedwir gan yr awdurdod cofrestru tiroedd comin perthnasol o dan adran 1 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006.

(4) Rhaid darllen erthygl 18 (cyhoeddusrwydd i geisiadau am ganiatâd cynllunio: Gweinidogion Cymru) fel pe bai'r hysbysiad gofynnol yn cynnwys—

(a) enw'r ceisydd;

(b) enw'r tir comin yr effeithir arno gan y gwaith arfaethedig;

(c) disgrifiad o'r gwaith arfaethedig a'i leoliad.

(5) Rhaid darllen erthygl 18(2)(b) fel pe bai rhaid anfon yr hysbysiad gofynnol at—

(a) perchennog y tir y bwriedir gwneud y gwaith arno (os nad y perchennog yw'r ceisydd);

(b) unrhyw berson arall sy'n meddiannu'r tir;

(c) os yw'r tir yn dir comin cofrestredig, meddiannydd unrhyw eiddo a ddangosir yn y gofrestr tir comin fel eiddo sydd â hawliau comin yn gysylltiedig ag ef, ac y cred y ceisydd fod y meddiannydd yn arfer yr hawliau hynny, neu fod y cais yn debygol o effeithio arno;

(d) unrhyw berson arall y gŵyr y ceisydd fod hawl ganddo i arfer hawliau comin ar y tir ac y cred y ceisydd ei fod yn arfer yr hawliau hynny neu fod y cais yn debygol o effeithio arno;

(**1**) O.S. 2012/737 (Cy. 97).

(e) y cyngor cymuned (os oes un) ar gyfer yr ardal y bwriedir gwneud y gwaith ynddi.

(6) Rhaid darllen erthygl 18(3) fel pe bai rhaid i'r wybodaeth sydd i'w chyhoeddi ar wefan a gynhelir gan Weinidogion Cymru gynnwys y materion a restrir yn is-baragraff (4)(a) i (c).

(7) Rhaid darllen erthygl 19(2) fel pe rhoddid yn ei lle y canlynol—

"(2) Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol roi hysbysiad drwy arddangos ar y safle, mewn ffurf a gyflenwir i'r awdurdod gan Weinidogion Cymru, am ddim llai na 21 diwrnod, yn y prif fannau mynediad i'r tir comin y bwriedir gwneud y gwaith arno (neu, os nad oes mannau o'r fath, mewn man amlwg ar ffin y tir comin hwnnw)."

(8) Rhaid darllen erthygl 29(3) fel pe rhoddid yn ei lle y canlynol—

"(3) Rhaid i'r penderfyniad ddatgan, gan roi rhesymau, pa un a yw cydsyniad ar gyfer y gwaith arfaethedig—

(a) wedi ei roi fel y gofynnwyd yn y cais;

(b) wedi ei roi yn rhannol yn unig, neu'n ddarostyngedig i addasiadau neu amodau; neu

(c) wedi ei wrthod."

**3.** Yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn y modd y'u cymhwysir i gais am gydsyniad o dan adran 38(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006, mae cyfeiriad at "person penodedig" ("*appointed person*") yn gyfeiriad at y person a benodwyd gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 3 o Reoliadau Gwaith ar Diroedd Comin, etc. (Gweithdrefn) (Cymru) 2012.